



Cyngor Sir Powys  
Neuadd Y Sir  
Llandrindod  
Powys  
LD1 5LG

Dyddiad: 5 March 2021

Annwyl Riant / Ofalwr,

Rydym am rannu gyda chi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau i roi cyfle i ragor o ddisgyblion ym Mhowys dychwelyd i'r ystafell ddosbarth cyn gwyliau'r Pasg.

Ar 3 Mawrth, cyhoeddodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg yng Nghymru, y byddai ysgolion yn cael y cyfle i groesawu disgyblion Blynnyddoedd 7, 8 a 9 yn ôl. Mae'r cynlluniau i groesawu disgyblion iau ysgolion uwchradd yn ôl yn ychwanegol at yr holl ddisgyblion cynradd y disgwylir yn ôl o ddydd Llun 15 Mawrth ynghyd â dysgwyr ym Mlynnyddoedd 10 a 12, y rhai mewn blynnyddoedd arholiadau a myfyrwyr sy'n gwneud cymwysterau tebyg.

Yn dilyn trafodaethau gydag uwch arweinwyr ein hysgolion, y trefniadau fydd:

### **Ysgolion cynradd**

Bydd pob disgybl Cyfnod Allweddol Dau (Blynnyddoedd 3, 4, 5 a 6) yn ôl yn yr ysgol o ddydd Llun 15 Mawrth.

I baratoi ar gyfer eu dychwelyd, ni fydd unrhyw addysgu byw ar-lein ddydd Iau 11 a dydd Gwener 12 Mawrth. Defnyddir y ddau ddiwrnod yma ar gyfer dysgu cyfunol gan ganolbwyntio ar les.

Bydd ysgolion cynradd yn dal i fod ar agor i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a phlant gweithwyr hanfodol ddydd Iau 11 a dydd Gwener 12 Mawrth.

### **Ysgolion uwchradd**

Ni fydd addysgu byw ar-lein ddydd Gwener 12 Mawrth. Bydd hwn yn Ddiwrnod Lles i ddisgyblion ysgolion uwchradd.

O ddydd Llun 15 Mawrth, bydd Blynnyddoedd 11 a 13 a blynnyddoedd eraill sy'n gwneud cymwysterau (Blynnyddoedd 10 a 12) yn mynychu eu hysgolion ar sail rota. Ysgolion unigol fydd yn gwneud y trefniadau hyn.

Disgwylir y bydd disgyblion ym Mlynnyddoedd 7, 8 a 9 yn cael sesiwn dal i fyny yn ystod y pythefnos yn arwain at wyliau'r Pasg. Unwaith eto, ysgolion unigol fydd yn gwneud y trefniadau hyn.

**Rhaid i mi ei gwneud yn glir y bydd disgyblion ysgolion uwchradd yn dychwelyd i'w hysgolion o ddydd Llun 15 Mawrth ar sail rota. Bydd eu hysgolion yn cysylltu â rhieni / gofalwyr disgyblion oedran uwchradd am y trefniadau hyn.**

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

[www.powys.gov.uk](http://www.powys.gov.uk)



## **Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion**

Bydd ysgolion disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion yn cysylltu â rhieni / gofalwyr am y trefniadau a fydd yn eu lle o ddydd Llun 15 Mawrth tan ddiwedd y tymor.

Rydym hefyd wedi cytuno gydag ysgolion y bydd y rheolau ar gyfer gwisg ysgol yn cael eu llacio o ddydd Llun 15 Mawrth tan ddiwedd y tymor.

Mae'n rhaid i'r cyfraddau trosglwyddo Covid-19 i bara'n isel yn y sir i alluogi disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol. Os bydd yr amgylchiadau'n newid a'r cyfraddau'n cynyddu, yna bydd ein hysgolion ddim ond ar agor ar gyfer plant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol.

Mae'n bwysig bod teuluoedd yn dilyn y canllawiau yma yng Nghymru i geisio atal y feirws rhag lledaenu. Mae hyn yn cynnwys:

- Peidiwch â rhannu lifft i'r ysgol, oni bai bod rhaid gwneud hynny;
- Gwisgwch fasg pan fyddwch yn gollwng ac yn codi eich plentyn o'r ysgol;
- Siaradwch â ffrindiau dros y ffôn, NID wrth gât yr ysgol;
- Cofiwch bob tro – dwylo, wyneb, pellter;
- Mae swigod ysgol ar gyfer yr ysgol yn unig;
- Dylech gadw eich plentyn gartref os yw'n sâl – hyd yn oed os nad ydych yn credu mai Coronafeirws yw e.

Cofiwch wrth i ddisgyblion dychwelyd i'r ysgol, ni fydd bywyd fel arfer eto. Mae'n bwysig parhau i ddilyn y canllawiau cyfredol y tu allan i'r ysgol sy'n golygu nad oes hawl cysgu drosodd yng nghartrefi pobl eraill na chynnal partïon ac ati oherwydd bydd yn peryglu'r trefniadau ar gyfer dychwelyd i'r ysgol yn ddiogel.

Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i chi cyn diwedd y tymor beth fydd y trefniadau ar gyfer disgyblion ar ôl gwyliau'r Pasg.

Hoffwn ddiolch i ysgolion am eu hymdrechion parhaus i gefnogi disgyblion yn ystod y cyfnod anodd hwn a hoffwn ddiolch hefyd i rieni am eu hamynedd a'u cydweithrediad yn ystod y cyfnod digynsail hwn o darfu ar ein hysgolion.

Yn gywir,

**Cyng. Phyl Davies**  
**Aelod Portffolio – Addysg ac Eiddo**

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

[www.powys.gov.uk](http://www.powys.gov.uk)